LF1217.5 I5 1975
Archives

# GORCHEST Y CELTIAID YN YR HEN FYD

*Darlith Agoriadol*
*Athro'r Gymraeg*
*a draddodwyd yn y Coleg*
*ar Fawrth* 4, 1975

*gan*

YR ATHRO D. ELLIS EVANS
M.A. (Cymru), D.Phil. (Rhydychen)

GWEDDW CREFFT HEB EI DAWN

COLEG Y BRIFYSGOL ABERTAWE

1975

UNIVERSITY COLLEGE LIBRARY SWANSEA

*Gwasg Gomer, Llandysul*

LF1217.5 I5 1975
Archives
1002423782

COLEG Y BRIFYSGOL ABERTAWE

# GORCHEST Y CELTIAID YN YR HEN FYD

*Darlith Agoriadol*
*Athro'r Gymraeg*
*a draddodwyd yn y Coleg*
*ar Fawrth* 4, 1975

*gan*

YR ATHRO D. ELLIS EVANS
M.A. (Cymru), D.Phil. (Rhydychen)

75/1080

# GORCHEST Y CELTIAID YN YR HEN FYD

Braint i mi yw cael traddodi'r ddarlith agoriadol hon fel pedwerydd Athro cadeiriog Cymraeg y Coleg hwn. Yn naturiol nid yw hi'n fraint heb ei harswyd. Mae traddodiad yn mynnu fod Athrawon y Coleg yn mynd trwy rhyw lun ar brawf cyhoeddus. Yn y digwydd hwn mae rhywbeth ailadroddus, fformwláig ymron, ac y mae hynny'n gysur ac yn her.

Hyfrydwch hefyd yw cael cyfle fel hyn i dalu teyrnged ddyledus i'm rhagflaenwyr. Bu'r Athro Henry Lewis, pennaeth cyntaf Adran y Gymraeg yn y Coleg, yn athro a chyfaill da ac yn symbyliad di-feth ac yr wyf yn ymfalchïo yn ddigon gwylaidd a phriodol ddiymhongar fy mod yn hen ddisgybl iddo. Ar ei ysgwyddau ef y disgynnodd baich digon anodd sefydlu a datblygu'r Adran a bu yn y Gadair am dair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw magodd yr Adran fechan hon gyfartaledd rhyfeddol o uchel o wŷr a gwragedd disglair eu dawn. Yr oedd yr Athro ei hunan yn bennaeth tra galluog ac yn ysgolhaig amryddawn, a chasglodd o'i gwmpas yn yr Adran ddarlithwyr llachar eu dysg mewn amryfal feysydd. Ymddiriedwyd y dasg o dywys yr Adran ar ôl i'r Athro Lewis ymddeol i ddeuwr dysgedig a phrofiadol iawn, yr Athro Stephen J. Williams ac yna'r Athro T. J. Morgan. Gofalwyd am yr Adran ganddynt hwy yn bwyllog-hyderus ar adeg gyffrous o chwyddiant cyffredinol yn y Prifysgolion a fu yn fendith ac yn felltith o ran y cyfnewidiadau lawer a gafwyd yn sgîl hynny. Mae'r Athro Stephen J. Williams yn dal i wasanaethu'r Coleg yn siriol a theyrngar fel aelod o'r Cyngor a chafodd yr Athro T. J. Morgan y cyfrifoldeb dwys o fod yn ddolen gydiol rhwng yr hen a'r newydd yng ngweinyddiaeth y Coleg fel yr hynaf o'n His-Brifathrawon. Carwn ddiolch iddynt hwy ill dau am eu cymorth hael. Hefyd yr wyf am gyflwyno yn arbennig fy niolch i aelodau staff Adran y Gymraeg am bob addfwynder ac am bob cyngor a help. Ni fwriadaswn sôn am unrhyw athro na fuasai'n perthyn i'r Coleg hwn. Ond carwn

ddatgan yn awr fy nyled i'r diweddar Syr Thomas Parry-Williams a fu farw ddoe, fy hen athro tirion a dawnus yn Aberystwyth, enaid annwyl ac athrylithgar a chyfaill mor garedig i gynifer ohonom.

Tywyswyd a symbylwyd fi i ymroi i astudio iaith a llên, hanes a chelfyddyd, crefydd ac athroniaeth y byd clasurol a'r byd Celtaidd. Yma y mynnwn gydnabod fy nyled fawr i'r diweddar Athro Benjamin Farrington a fu yntau farw yn ystod y flwyddyn golegol hon, cyn-athro'r Clasuron yma yn Abertawe, gŵr o Wyddel twymgalon ac ysgolhaig cadarn ei farn, eang iawn ei ddiwylliant a chlir a choeth ei fynegiant o'i syniadau.

Mae'n wir fy mod innau fel llawer un arall wrth wynebu'r broblem o ddewis testun ar gyfer darlith agoriadol wedi cael fy nwys ddenu gan aml i bwnc gwych. Ond yr oedd yn anochel rywsut fy mod yn troi fy ngolygon yn bendant i'r hen fyd ac at ryw wedd neu weddau ar wareiddiad y Celtiaid yn yr hen fyd hwnnw. Nid oedd dewis cyfrwng yn broblem. Anos oedd dewis cyd-rhwng rhyw agwedd gyfyng ar fy mhriod faes a phwnc mwy cyffredinol. Ar un llaw gellid ymaflyd mewn darn arbenigol o ymchwil mewn rhyw gornel fach o'r maes, rhyw haen arbennig o dystiolaeth am yr hen ieithoedd Celtaidd. Ar y llaw arall gellid dal ar y cyfle i rychwantu nifer o agweddau mwy cyffredinol, bwrw golwg ehangach ar y maes yn gyfan. Mae cyfyngderau a manteision amlwg o'r naill du a'r llall. Sut bynnag nid yn fyrbwyll, na dibwrpas ychwaith, y mynnais geisio edrych ennyd ar orchest y Celtiaid yn yr hen fyd.

Bu cryn drafod ar gydberthynas gwareiddiadau'r hen fyd a bellach, yn unol â ffasiwn yr oes, neilltuir cyngresi cyfain i drafod hyn naill ai yn eang gyffredinol neu drwy ganolbwyntio ar ryw un agwedd arbennig. Trwy drugaredd rhoddwyd y gorau fesul tipyn i'r hen arfer o dybio bod diwylliant y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn rhagori ar eiddo pobloedd megis yr Iberiaid neu'r Thraciaid, y Celtiaid neu'r Germaniaid. Wrth inni fwrw golwg yn ôl ar hanes ysgolheictod fe ganfyddwn ni sut y dodwyd gormod o bwys ar dystiolaeth lenyddol ar



draul anwybyddu tystiolaeth o feysydd eraill. Tueddodd ymffrost a rhodres egosentrig o du'r ffynonellau ysgrifenedig Groeg a Lladin i achosi dibrisio tystiolaeth o gyfeiriadau gwahanol i hynny, dibrisio dawn a champ pobloedd a orlethwyd, lawer ohonynt, gan rymusterau'r de ' diwylliedig ' o gwmpas Môr y Canoldir. Ceir argoelion o hyn ar dro yng ngwaith ysgolheigion o fri yn ein plith ni heddiw ysywaeth. Bid siŵr dinistriwyd yr hen bortread eiddil o frodorion anwar, noethlymun, wedi lliwio'u crwyn yn gwrthsefyll y Rhufeiniaid penderfynol a bygwth y goresgynwyr bonheddig-rymus â'i bwyeill a'u cerbydau rhyfel. Ond ni chafwyd gwared yn llwyr ar y dybiaeth bod diwylliant y Rhufeiniwr yn ei hanfod yn un cyfoethocach, mwy llesol, rhagorach nag eiddo'r ' brodor ' neu fod synthesis Galaidd-Rufeinig neu Brydeinig-Rufeinig yn drech na'r diwylliant Galaidd neu Brydeinig heb yr ymyrraeth o du Rhufain.

Mae ychydig sylwadau cyffredinol eraill y barnaf ei bod hi'n rhaid i mi eu cynnig yma wrth imi glosio at fy mhwnc. Cofiwn oll mai gwyddor eithriadol o anodd yw gwyddor hanes ar y gorau. Dangoswyd yn narlithiau agoriadol Athro Hanes ac Athro Hanes Modern y Coleg hwn pa mor beryglus ac eto pa mor ffrwythlon y gall ysgrifennu hanes fod mewn amryfal gyfnodau. Mae'r hanesydd yn dragwyddol gaeth i'w ffynonellau ac ar yr un pryd yn rhwym wrth gymhlethdodau ei ddawn ei hun a'i berthynas â'r byd a'i bobl yn ei oes ei hun. Ailgreu neu atgyfodi'r gorffennol a wneir ganddo, a hynny gobeithio yn frwdfrydig a chyfrifol anturus. Ond y mae hi'n anodd cwmpasu a rheoli'r dystiolaeth ym mhob oes. Ar gyfer astudio diwylliant pobl fel y Celtiaid yn yr hen fyd mae anawsterau arbennig.

Un wedd ar yr anhawster yw bod gennym ni gyfoeth o dystiolaeth o diriogaeth eang iawn, tystiolaeth sy'n amrywio'n ddirfawr o ran gwerth ac o ran dyddiad. Mae cyfran helaeth o'r dystiolaeth hon yn mynd â ni yn ôl gryn dipyn y tu hwnt i drothwy hanes i gyfnod bore yr Oes Bres a'r Oes Haearn gynhanesyddol ; cadwyd cyfran helaeth arall o dystiolaeth ysgrifenedig tra gwerthfawr

o'r chweched ganrif cyn Crist ymlaen. Yn ogystal mae gwerth anghyffredin, wrth gwrs, yn nhystiolaeth gynnar ieithyddol hen arysgrifau a defnyddiau cyffelyb ac yn arbennig iawn lenyddiaethau a thraddodiadau llafar y gwahanol deyrnasoedd neu wledydd Celtaidd diweddarach.

Mae ceisio creu darlun clir o'r torllwyth hwn o dystiolaeth yn dasg bur enbyd. Un broblem sylfaenol yw gwybod a ellir neu sut y gellir adnabod y Celtiaid. Oblegid labeli digon peryglus yw ' Celtaidd ' a ' Cheltiaid '. Sylwyd droeon cyn hyn nad yw'r meysydd y cyfeirir atynt wrth arfer y term ' Celtaidd ' yn golygu yr un peth i bob ymchwilydd. Ac y mae ymchwilwyr yn fynych yn tynnu casgliadau gwahanol i'w gilydd hyd yn oed wrth arfer yr un method i drafod yr un dystiolaeth. Mae hyn yn arbennig o wir wrth geisio olrhain tarddellau a sefydlu schema gronolegol ar gyfer y cyfnod cynhanesyddol. A magl i'r gwangalon yw'r dybiaeth na ddylid arfer y term ' Celtaidd ' am ddim ond pobloedd a fedr neu a fedrai iaith neu ieithoedd Celtaidd. Rhaid inni allu sôn am y Celtiaid mewn perthynas â chelfyddyd a chwedloniaeth a chrefydd a gwisg a dulliau rhyfela a'r cyffelyb.

Nid hawdd, bid siŵr, yw cydarfer yn synhwyrol dystiolaeth lenyddol neu ieithyddol a thystiolaeth archaeolegol. Ond y mae diffyg cyswllt rhwng un ddisgyblaeth a'r llall yn dal i lesteirio datblygu darlun mor gyfan ag y gallai fod o'r hen dreftadaeth Geltaidd. Nid ar chwarae bach y gellir trafod ynghyd yn ysgolheigaidd ffrwythlon dystiolaeth am gelfyddyd, am chwedloniaeth, am grefydd ac am gyfraith. Un perygl yw arfer termau sy'n briodol neu a all fod yn briodol ar gyfer un set o ffeithiau i ddisgrifio a dadansoddi setiau eraill o ffeithiau. Ac ni ellir priodoli iaith neu dafodiaith arbennig i rywun ar gyfrif siâp ei benglog neu'r modd y byddai'n claddu'r meirw neu ar gyfrif patrwm ei arfau (amddiffynnol ac ymosodol) neu foethusrwydd ei lestri gorau. Nid oes modd profi cyswllt rhwng priodweddau ffisegol darganfyddiadau'r archaeolegwyr fel rheol a chonseptau ieithyddol neu



hiliol.[1] Cofier yma am sylw F. T. Wainwright yn ei *Archaeology and Place-names and History*, ' [An archaeologist] can stare at brooches as long as he likes but they will never tell him what language their wearers spoke '.[2] Rhywbeth cyffelyb oedd ym meddwl Syr John Rhŷs gynt pan ddywedodd ' Skulls are harder than consonants and races lurk when languages slink away '.[3] Digon hawdd yw dweud y gallwn ni ddechrau sôn am Geltiaid yn unig ar ôl datblygiad neu ffurfiad Celteg yn gangen arwahanol o'r teulu mawr Indo-Ewropeïg o ieithoedd.[4] Ond atolwg pa ddewin all ddweud wrthym ni pa bryd y daeth y gangen Gelteg i fod, ni waeth beth fu'r cynnydd yn ein gwybodaeth ni ? Ac eto mae mwy o angen nag erioed am gydymdeimlad a dealltwriaeth cyd-rhwng yr hanesydd a'r archaeolegwr a'r ieithydd. Fe fydd rhai'n cwyno'n bruddglwyfus y gall cyfuno tystiolaeth fod yn beryglus gan na all neb fod yn ben meistr ar fwy nag un ddisgyblaeth. Onid peryclach yw glynu'n drwynsur neu ffroenfalch at rigolau un ddisgyblaeth heb godi pen i geisio deall beth y mae tystiolaeth o faes arall yn ei awgrymu ? Fel yr awgrymodd Dymond,[5] mae'r angen am gydgysylltu yn mynd yn fwyfwy pwysig fel y mae'r arbenigo a'r adrannu yn mynd ar gynnydd.

Yn olaf oll mae'n rhaid inni gofio sut y mae dulliau astudio yn newid yn chwyldroadol mewn amryfal feysydd. Ym maes archaeoleg, er enghraifft, datblygwyd gwyddorau dyddio trwy fesur pa faint a garbon sydd wedi ei golli oddi ar pan fu planhigyn neu anifail farw a thrwy sefydlu oed pren trwy gyfri'r cylchoedd blynyddol a sylwi ar eu patrymau o ran dwysedd a thrwch. Ysywaeth nid yw'r dyddiadau a awgrymir gan y naill wyddor a'r llall yn cyfateb i'w gilydd ac ni bu'r ymdrechion glew i geisio'u cysoni â'i gilydd yn gwbl foddhaol. Torrodd gwawr yr Archaeoleg Newydd gyda'r ymdrech i gryfhau'r pwnc trwy ddodi mwyfwy o bwys ar ehangu a dyfnhau amred y disgrifio y gellir ei brofi a'i wireddu a chadw llygad yr un pryd ar bersbectif hanesyddol. Defnyddir technegau newydd i ddadansoddi planhigion ac esgyrn a phridd a phaill a chamwyd yn dalog i fyd ' archaeoleg gyd-des-

tunol '.[6] Ond y mae eto berygl mewn gadael i dechnoleg reoli archaeolegwyr nes colli golwg ar arwyddocâd hanesyddol y data a pheri i'r wyddor fynd dipyn yn hesb. Cofier am gwyn briodol Jacquetta Hawkes mewn erthygl enwog dan y pennawd ' The Proper Study of Mankind'.[7] ' What does appear to me to be in decline ', meddai, ' is the thinking and writing that synthesize archaeological findings into true history '.

Ym maes archaeoleg hefyd mae cryn ferw bellach a thyndra cyd-rhwng y sawl sy'n tueddu i wrthod damcaniaethau ynglŷn â goresgyniadau neu ymfudiadau pobloedd a thrylediad diwylliant a'r sawl sy'n cofleidio yn hytrach ddulliau newydd o esbonio newid diwylliannol, dulliau sy'n dodi mwy o bwys ar ddatblygiad a newid mwy annibynnol leol.[8] Pwysleisiodd yr Athro Colin Renfrew, er enghraifft, ddatblygiad rhanbarthol a bod un issystem yng ngwead cymdeithas yn dylanwadu ar y llall—y model a alwodd ef yn ' effaith lluosyddol ' (' multiple effect ') ac un y ceisiodd ei gymhwyso i drafod twf gwareiddiad yng nghylch y Môr Aegaidd yn ystod y trydydd mileniwm cyn Crist.[9] Y gwir yw, debyg iawn, fel y nododd rhai o'i feirniaid, fod angen cymhwyso nifer o fodelau i drafod twf hen wareiddiadau. Yr un math o dyndra a'r un math o argymell mabwysiadu safbwynt eclectig neu asio dulliau a ganfyddwn ni ym maes ieithyddiaeth erbyn hyn lle y parheir i arfer hen fethod traddodiadol genetig neu achyddol ynghyd â method daearyddol diriogaethol a'r method teipolegol.

Ni soniais am na diwylliant na gwareiddiad yn nheitl y ddarlith hon, a hynny i raddau am fod y termau hyn yn golygu rhywbeth gwahanol o oes i oes ac o sylwedydd i sylwedydd. Wrth synied am y Celtiaid mae deubeth yn dod i'r meddwl. Yn gyntaf gwerthfawrogaf y modd y bu'r Athro Christopher Hawkes yn llawdrwm iawn yn ddiweddar yn ei feirniadaeth ar y modd yr arferir gair fel ' culture ' yn llac (e.e. mewn ymadroddion fel ' Beaker culture ' neu ' Urnfield culture ') heb inni wybod digon am amryfal agweddau ar ddiwylliant, fel y synnir amdano gan rai sylwedyddion, inni allu ei ddadansoddi'n



rhesymol o gywir.[10] Yn ail fe allwn ni ganfod tipyn o'r gwamalu a'r amrywiaeth agwedd mewn perthynas â'r Celtiaid o graffu ar safbwyntiau a dadansoddiadau dau o brif ddarlithwyr yr Ail Gyngres Gydwladol Efrydiau Celtaidd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn 1963.[11] Yno, ar un llaw, wrth drafod cydberthynas diwylliannol yn y byd Celtaidd cynnar, mabwysiadwyd gan y Dr. Ralegh Radford yr hen syniad simplistig arwynebol am drawsnewid sy'n dodi pwys ar feddu gwarged economaidd, twf trefi, a dod i allu cofnodi iaith yn ysgrifenedig, a thybio bod hynny'n arwyddo twf gwareiddiad o'r iawn ryw. Dyma safbwynt a oedd, ar y llaw arall, yn anathema llwyr i'r diweddar Alwyn Rees a ddilornodd yn haeddiannol chwyrn y syniad o esblygiad a'r duedd i alw popeth yn y Gorllewin sy'n gyn-Gristnogol neu gyn-glasurol yn gyntefig, anwar a barbaraidd.

Y broblem anhawsaf yn wir mewn un traethiad byr fel hwn ar glamp o destun yw dethol y defnydd yn y fath fodd fel nad yw'r dethol yn creu anghymesuredd a rhoi argraff gamarweiniol, yn arbennig o ran cyffredinoli a cholli golwg ar amrywiaeth ac ar bersbectif hanesyddol.[11] Rhaid i mi bwysleisio fy mod yn ymwybodol o'r broblem hon yn ddi-baid. A gobeithio na chaiff neb ei gamarwain gan y gair gorchest yn nheitl y ddarlith hon i ddisgwyl am foliant gorawenus yma drwodd a thro.

Wn i ddim a ddylem ni geisio dweud pa bryd yn union y cyrhaeddodd y Celtiaid eu hanterth yn yr hen fyd, ond mae modd dal i hynny ddigwydd yn fras iawn tua'r un adeg ag y cawn ni fod awduron a ysgrifennai Roeg, ac yna rai a ysgrifennai Ladin, yn rhoi sylw cynyddol iddynt. Digwyddodd hynny i raddau, debyg iawn, am mai adeg eu hymchwydd mawr a'u goresgyniadau a'u cyrchoedd pell y daeth y Celtiaid yn hysbys ac yn fwyfwy diddorol neu bwysig yng nghanolfannau gwleidyddol a diwylliannol cylch Môr y Canoldir. Ond gorsymleiddio enbyd fyddai derbyn y dybiaeth hon, o gydnabod yn onest bod anawsterau deongliadol yma'n dryfrith. Sut bynnag, cadwyd y dystiolaeth lenyddol gynharaf ynglŷn â'r Celtiaid o bosibl yn *Ora maritima* Rufus Festus Avienus a

oedd yn rhag-gonswl Achaia yn O.C. 372.[13] Symbylwyd ei waith gan hen adroddiadau am hwylio o gylch glannau'r môr, a rhai o'r adroddiadau hynny cyn gynhared â'r chweched ganrif cyn Crist. Ond cwbl ddamcaniaethol oedd dadl ddeniadol Müllenhoff mai *periplus* Massiliaidd oedd tarddell arolwg Avienus. Ceir sôn yn yr *Ora maritima* am Geltiaid ar hyd arfordir Môr Udd, yn Ffrainc a de orllewin Sbaen. A bod yn fanwl ni cheir ychwaith gyfeiriadau penodol sicr at y Celtiaid gan Hecataeus o Miletus. Mae'n bosibl mai'r gramadegydd a'r daearyddwr Stephanus o Byzantium tua diwedd y bumed ganrif cyn Crist a fanylodd ar fod Massilia yn agos at Celtica a bod Nyrax (yng Ngharinthia fodern ?) yn dref Geltaidd. Yna mae Herodotus, ' Tad Hanes ' (m. *c.* 425), yn sôn am y Celtiaid fel pobl a oedd yn byw yn nhueddau blaenau'r afon Donaw a thref Pyrene, enw sydd i'w gysylltu mae'n lled siŵr â'r Pyreneaid.[14] Mae'n nodi hefyd fod Celtiaid yn byw y tu hwnt i Bileri Ercwlff (h.y. culfor Gibraltar), awgrym gan hynny fod y Celtiaid wedi cyrraedd hyd at bellafoedd Sbaen. Ef yw'r awdur cynharaf y gallwn ni fod yn sicr ei fod yn enwi'r Celtiaid, o ran y dystiolaeth a gadwyd i ni.

Mae'r athronydd Platon, wrth drafod hunanymwadiad y Sbartiaid o ran yfed gwin, yn cynnwys y Celtiaid mewn rhestr o bobloedd barbaraidd a oedd yn ymroi i feddwdod (mae hon yn thema gyson yn y ffynonellau cynnar). Wedyn yr oedd Aristotlys yn dosbarthu'r Celtiaid gyda phobloedd eraill a oedd yn mawrygu gwrywgydio agored ; ond hefyd mae'n mynnu eu bod yn ddi-ofn a hyd yn oed yn anystyriol wyllt a byrbwyll mewn brwydr. Yn y *Periegesis* o waith Pausanias (*fl. c.* O.C. 150), sydd yn hyn o beth yn debyg o fod yn adlewyrchu traddodiad pur gynnar, cadwyd adroddiadau am ymosodiad y Celtiaid ar wlad Groeg, eu hencil o Delphi a'u hymfudo i Asia Leiaf. Yma ceir disgrifiad byw o'r ymladd chwyrn hyd farwolaeth ym mrwydr enwog Thermopylae (279 C.C.) a llawer o wybodaeth dra phwysig am dacteg y Celtiaid wrth frwydro.

Ceir lliaws o gyfeiriadau at y Celtiaid yn llyfrau hanes



Polybius, yn arbennig hanes y brwydro rhwng y Rhufeiniaid a'r Galiaid yn ail ran y drydedd ganrif C.C. Yma sonnir am dlysau a chlogynnau'r Celtiaid, eu gyddfdorchau a'u breichrwyau, eu gwag falchder ac ehofndra yn ymladd yn noethlymun, eu hela pennau, y defnydd a wnaent o gyrn canu, ac unwaith eto eu dewrder anystyriol a'u hunanaberth mewn brwydr, ond hefyd eu digalondid a'u tueddiad i gyflawni hunanladdiad yn llu pan drechid hwy.

Ond ceir y darlun llenyddol llawnaf a gorau o ddigon yng ngwaith yr hanesydd a'r daearyddwr a'r athronydd Stoicaidd Posidonius o Apamea, yn Syria, a oedd yn ysgrifennu yn bennaf yn ystod hanner cyntaf y ganrif gyntaf C.C. Er bod ei adroddiad ethnograffig ef am y Celtiaid wedi mynd ar goll fe gadwyd cryn dipyn o'r defnydd hwn yng ngweithiau awduron diweddarach, wedi ei grynhoi a chyda rhai cyfnewidiadau ac ychwanegiadau.[15] Yr oedd tri o'r rhain yn awduron Groeg, sef yr hanesydd Diodorus Siculus, y daearyddwr Strabo a'r areithydd a'r gramadegydd Athenaeus. Hefyd manteisiodd Iŵl Cesar ar waith Posidonius heb gydnabod hynny a chan anwybyddu rhai rhannau ac ychwanegu at eraill yn ôl ei fryd a'i fympwy ei hunan. Mae awduron diweddarach (ac eithrio Plinius, a roddodd inni ynghyd â gwybodaeth werthfawr arall restrau o arferion derwyddol) yn tueddu i ailadrodd yr hyn a gawsent mewn ffynonellau a seiliwyd ar waith Posidonius. 'Rwy'n dyfynnu yma drosiad o enghraifft neu ddwy o destunau sy'n dibynnu ar Posidonius er mwyn dangos naws a gwerth ffynonellau fel hyn. Yn gyntaf, rhai sylwadau ar fwyd a diod :

> ' Mae'r Celtiaid, medd Posidonius, [yn ôl Athenaeus] yn eistedd ar laswellt sych ac yn cymryd eu bwyd oddi ar fyrddau o bren wedi eu codi dipyn o'r llawr. Ychydig fara yw eu bwyd ynghyd â llawer o gig naill ai wedi'i ferwi neu wedi'i rostio ar olosg neu ar gigweiniau. Maent yn cymryd o'r bwyd yn syber ond ar yr un pryd fel llewod, gan godi darnau cyfain yn eu dwylo a

chnoi'r cig oddi arnynt. Os bydd rhyw ddarn yn anodd i'w larpio torrant drwyddo â dagr byr sy'n hongian yn ei briod le yn agos at wain eu cleddyf. Mae'r sawl sy'n byw yn agos at yr afonydd neu ger Môr y Canoldir a Môr Iwerydd hefyd yn bwyta pysgod, sef pysgod wedi eu digoni gyda thipyn o halen a gwin cyffredin a chwmin. Maent hefyd yn dodi cwmin yn eu diod. Ni fyddant yn defnyddio olew am ei fod yn brin, a chan ei fod yn anghyfarwydd iddynt mae'n atgas ganddynt. Pan fo llawer yn bwyta ynghyd byddant yn eistedd mewn cylch gyda'r person a chanddo fwyaf o awdurdod yn y canol, yn union fel arweinydd corws, ni waeth ai o ran dawn i ryfela, neu o ran tras, neu o ran golud y mae'n rhagori ar y lleill. Yn ei ymyl ef y bydd y gwesteiwr yn eistedd ac yna ar y naill ochr a'r llall iddynt y gweddill yn ôl eu bri. . . . Diod y rhai cyfoethog yw gwin wedi dod o'r Eidal neu o diroedd Massilia. Mae hwn yn bur a digymysg, ond weithiau ychwanegir diferyn o ddŵr. Mae'r bobl o isel radd yn yfed cwrw ynghyd â mêl, ond mae'r rhan fwyaf yn ei yfed ar ei ben ei hun. *Corma* yw'r enw arno. Maent yn defnyddio un cwpan cyffredin, gan yfed ychydig ar y tro, dim mwy nag un ddracht, ond fe wnânt hyn braidd yn aml '.

Ceir tipyn o sôn hefyd am bryd a gwedd y Celtiaid, eu harferion wrth ryfela, eu dillad, eu tymer, eu derwyddon a'u gweledyddion a'u beirdd. Yn ôl Diodorus Siculus :

' Mae'r Galiaid yn fawr o gorffolaeth, a'u cnawd yn llaith a gwyn, a'u gwallt nid yn unig yn olau wrth natur ond hefyd defnyddiant ddulliau artiffisial i beri bod y lliw naturiol hwn yn amlycach. Oblegid maent yn iro eu gwallt o hyd â golchiad tew o galch a'i dynnu'n ôl o'r talcen at y corun a'r gwegil nes eu bod yn debyg o ran pryd a gwedd i Satyr neu i Pan, canys mae'r gwallt wedi tewychu gymaint gan y driniaeth hon nes ei fod yn union fel mwng ceffyl. Fe fydd rhai yn eillio'u barf, ac eraill yn tyfu barfau byrion. Mae'r



bonedd yn eillio'u cernau ond yn gadael i'w mwstas dyfu'n ddidoriad nes bod eu geneuau wedi eu gorchuddio. Ac felly pan fyddant yn bwyta y mae'r blew yn cael eu maglu yn y bwyd, a phan fyddant yn yfed mae'r ddiod yn llifo, fel petai, drwy hidlen . . . Maent hefyd yn gwahodd dieithriaid i'w gwleddoedd ac ar ôl y pryd bwyd y byddant yn holi pwy ydynt a beth yw eu neges. Wrth y wledd maent yn tueddu i gael eu gyrru i ddadlau gan sylwadau damweiniol, ac yna ar ôl iddynt herio'i gilydd ânt i ymladd un ac un heb gyfrif marwolaeth o ddim pwys ; canys y mae cred Pythagoras yn gryf yn eu plith, fod enaid dyn yn anfarwol, a'u bod ar ôl nifer penodedig o flynyddoedd yn byw eilwaith pan yw'r enaid yn mynd i breswylio mewn corff arall '.

Mae tystiolaeth amrywiol a chyfoethog toreth o ffynonellau ysgrifenedig fel hyn yn anhraethol bwysig, er ei pherycled, ar gyfer ceisio dehongli'n gywir dystiolaeth archaeolegol ac ar gyfer darlunio rhai agweddau ar wareiddiad y Celtiaid na all yr archaeolegydd ddweud odid ddim amdanynt. Mae hi'n wir, wrth gwrs, fod rhaid pwyllo wrth ddefnyddio'r ffynonellau hyn ac ystyried eu cefndir a'u tarddellau, safbwynt a safle eu hawduron, eu diwylliant a'u syniadau a'u cymhellion wrth ysgrifennu. Ond, yn achos rhai ohonynt, gan gynnwys Posidonius a Chesar a Cicero, ni ddylid anghofio eu bod wedi teithio ymhlith y Celtiaid a dod i gyswllt uniongyrchol â hwy.

Nid oedd tiriogaeth y Celtiaid ar y cychwyn yn debyg o fod yn un helaeth. Mae'n bosibl bod crud y Celtiaid yng nghyffiniau de'r Almaen fodern a rhan o Bohemia. Dadleuwyd yn lled ddiweddar,[16] yng ngolau tystiolaeth yr honnir y gellir ei chanfod o astudio teipoleg ieithyddol yn unig a dosbarthiad daearyddol dulliau ieithyddol, fod cartref cynharaf y Celtiaid rywle i'r gorllewin o hen drigfan y Thraciaid yn Hwngari fodern a pharthau cyfagos. A dweud y gwir nid yw hi'n bosibl na phrofi na gwrthbrofi cywirdeb tybiaethau cyffredinol ynghylch y modd y darfu i gymysg o bobl mewn cyfnod cynhanes-

yddol ei amlygu ei hun yng nghyfluniad ethnig y Celtiaid hanesyddol. Fel rheol cyfeirir at ddwy elfen neu ddwy ffactor sylfaenol, sef ' diwylliant ' y Tumuli neu Bobl y Carneddi o'r Oes Bres (rhai a fyddai'n claddu cyrff y meirw mewn carneddi) a ' diwylliant ' y Meysydd Yrnau (yn arwyddo pobl a amlosgai gyrff y meirw a'u claddu'n llwch mewn yrnau).[17] Yn sicr erbyn tua'r seithfed i'r chweched ganrif C.C. y mae rhai rhesymau teg gan yr archaeolegwyr o blaid honni bod diwylliant Celtaidd yn ymestyn o ddwyrain Ffrainc hyd Bohemia.[18] Yn y siambrau claddu gellir canfod olion eglur o'r cyswllt a oedd rhwng y Celtiaid a phobl eraill o gylch Môr y Canoldir bryd hynny. Y gladdfa enwocaf o hyd, mae'n bur debyg, yw un Vix yng nghanolbarth Ffrainc (ger Chatillon-sur-Seine, Côte-d'Or), ac yno wraig gymharol ifanc wedi ei chladdu ynghyd â'i cherbyd pedair olwyn a chyda'i thlysau a'i thorch ogoneddus o aur. Ceid yn y siambr hefyd lestr anferth o efydd (gwaith Groegaidd eithriadol o gelfydd yn perthyn i ail ran y chweched ganrif, wedi ei fwriadu ar gyfer offrwm o waed o ryw aberthau defodol yn ôl un awgrym).[19] Mae yn y siambr yn ogystal gostrel a disglau eraill sy'n Etrwscaidd, a dau gwpan bach Atig yn null y Ffigur Du enwog (gwnaed un tua 525 C.C. a'r llall ychydig cyn 500 C.C.).

Pan oedd prif ganolfannau'r Celtiaid wrth flaenau'r afon Donaw ac afon Rhein ac yn arbennig yn nwyrain Ffrainc yn y bumed ganrif y gallwn ni ganfod yn glir yn y defnydd Groegaidd ac Etrwscaidd cywrain a gwerthfawr a oedd yn eiddo iddynt fod y Celtiaid yn masnachu ar raddfa eang ac ar delerau da â phobloedd gyfoethog o gwmpas Môr y Canoldir. Mae yn hyn hwyrach arwyddion o rym a bri ac egni'r Celtiaid ar awr o anterth a chryn sefydlogrwydd. Mae'r costreli Etrwscaidd yn amlygiad clir o fasnach. Ynghyd â hwy deuai setiau o lestri efydd ar gyfer gwleddoedd, peiriau ar drybeddau, bwcedi a llestri eraill ar gyfer cadw a chymysgu gwin. A chyda'r llestri fe ddeuai'r gwin ei hun wrth gwrs. Yr oedd rhai o sylwedyddion yr hen fyd yn dilorni'r Celtiaid am eu diffyg dirwest a'u harfer o yfed gwin cryf heb ei deneuo



â dŵr. Mae Ammianus Marcellinus yn cyfeirio at y *vini avidum genus, affectans ad vini similitudinem multiplices potus*, ' pobl sy'n blysio am gael gwin ac yn dyfeisio llawer o ddiodydd tebyg i win '. Mae'n nodi bod yn eu plith rai o'r math salaf a'u pwyll wedi ei bylu gan feddwdod parhaus, yn rhuthro o gwmpas mewn miri diamcan. Ac yn ôl Cicero yr oedd y Galiaid yn ystyried gwin â dŵr ynddo yn wenwyn. Fe ddylid nodi yma i'r cynnyrch Etrwscaidd gyrraedd cyn belled â Bohemia yn nhueddau dwyreiniol y byd Celtaidd. Yn gyfnewid am yr hyn a dderbynnid o'r de mae'n debyg y byddid yn cynnig rhyw elw. Yn y gorllewin fe ddichon mai aur oedd un o'r trysorau gwerthfawrocaf a gyfnewidid. Ond mae rhai sylwedyddion yn pwysleisio mai'r hyn a gyfnewidid yn bennaf oedd pobl. Darpar gaethion oedd y cyfoeth pwysicaf, ac yna gynnyrch amaethyddol, yn arbennig wartheg a chrwyn.

Bellach nid yw hi'n anodd deall sut y cafwyd y cyfeiriadau llenyddol cynharaf at y Celtiaid y soniwyd am rai ohonynt gennym o'r blaen. Mae'r dystiolaeth archaeolegol yn dangos yn glir y gallai'r cyswllt rhwng arweinwyr y Celtiaid a masnachwyr o'r de beri taenu gwybodaeth am y Celtiaid a'u tiriogaethau yn eang.

Tua chanol y bumed ganrif y cychwynnodd llediad, ac i raddau ddiflaniad, y Celtiaid o'u hen gynefin. Ni ellir dweud yn gwbl sicr pam y cyrchodd pobl i sefydlu trefedigaethau newydd, mewn broydd cyfagos i ddechrau ac yna trwy ymgyrchu arfog mewn mannau pellach i ffwrdd o'r hen ganolfannau. Yn ôl un hen ddamcaniaeth sy'n dal i fod yn ffasiynol achoswyd hyn gan annidd-igrwydd cymdeithasol oblegid y gwahaniaeth dybryd o ran amodau byw cyd-rhwng trwch y boblogaeth a'r rheolwyr breiniol dywysogaidd, y dosbarth aristocratig yr adlewyrchir ei rym a'i olud yn y caerau a'r claddfeydd. O bryd i'w gilydd meddyliwyd hefyd mai cynnydd yn y boblogaeth oedd wedi achosi cythrwfl, neu fod y Celt wrth reddf yn cael blas ar anturio a chrwydro a'i fod yn eiddgar i ennill tir ac eiddo. Yn ogystal ceisiwyd cyn hyn feio cyfnod o dywydd garw am eu crwydriadau a'u cyrch-

oedd. Y ddamcaniaeth gymdeithasegol-economaidd yw'r un sy'n fwyaf tebyg o fod yn gywir er mor frau a chyfyngedig yw'r dystiolaeth o'i phlaid hi.

Sut bynnag, tua 400 C.C. treiddiodd y Celtiaid i ogledd yr Eidal ac ymsefydlu yno mewn ardal y daethpwyd i'w galw y rhawg yn Gallia Cisalpina. Ymwthiodd rhai ohonynt i'r de ac anrheithio a meddiannu dinas Rhufain yn 390 C.C. Er iddynt dreiddio yn fuddugoliaethus ymhell y tu hwnt i'r ddinas yn y de grym Rhufain a orfu yn y diwedd a gyrrwyd y Celtiaid yn ôl erbyn canol yr ail ganrif cyn Crist at y tir wrth odre'r Alpau. Yn y dwyrain cyrchwyd hyd at fynyddoedd Carpathia. Yn y drydedd ganrif anrheithiwyd Macedonia ac ymosodwyd ar Thracia a gwlad Groeg. Difrodwyd y deml gysegredig yn Delphi yn y flwyddyn 278 C.C. Ond ni chafodd y Celtiaid ddinas barhaus yng ngwlad Groeg. Gwahoddwyd lliaws ohonynt i Asia Leiaf gan y Brenin Nicomedes o Bithynia. Yn 270 C.C. parodd Antiochus Soter eu sefydlu gerllaw afon Halys a thiriogaeth gyffiniol mewn ardal yn cyfateb yn fras i eiddo Ankara fodern. Yn y gorllewin lledodd y Celtiaid cyn belled â Môr Iwerydd a darostwng gwlad Gâl a rhannau helaeth iawn o'r penrhyn Iberaidd a meddiannu Prydain ac Iwerddon yn gyfan gwbl ymron. Cynigiwyd damcaniaethau amrywiol iawn gan y sawl a geisiodd sefydlu pa bryd y cyrhaeddodd y Celtiaid Brydain ac Iwerddon gyntaf oll. Mae anawsterau lu yn y cwr gogledd-orllewinol hwn, ni waeth pa dystiolaeth y bydd dyn yn ceisio hoelio sylw arni. Cefais gyfle i drafod un wedd ar y broblem hon mewn cyd-destun arall. Yr unig beth y carwn i ei ddweud yn awr yw fy mod i'n gweld synnwyr yn awgrym Christopher Hawkes mai proses graddol, cyflenwadol-gynyddol (' cumulative ' yw ei air ef) a gafwyd wrth i'r parthau hyn ddod fesul tipyn i fod yn Geltaidd.[20]

Cadwyd inni amryfal ffynonellau ar gyfer ceisio dirnad natur sefydliadau a threfn cymdeithas ymhlith y Celtiaid. Mae argoelion bod y drefn honno yn tueddu i fod yr un trwy'r byd Celtaidd yn gyfan. Awgrymir gan y dystiolaeth o'r hen fyd a ffynonellau ynysol brodorol diweddarach mai yr un yn ei hanfod oedd y prif nodweddion, ni waeth a fyddwn ni'n pwyso ar dystiolaeth Cesar a Strabo neu'r llyfrau cyfraith Gwyddeleg neu dystiolaeth archaeolegol (mae hon yn dweud tipyn wrthym ni am natur hanfodol aristocrataidd y dosbarthiadau llywodraethol). Rhaid inni ochel o hyd rhag synied am drefn statig.[21] Y ffynhonnell bwysicaf, ar gyfer Iwerddon o leiaf, yw'r hen lyfrau cyfraith Gwyddeleg. Mae'r darlun o drefn cymdeithas a adlewyrchir yn y rhain yn mynd â ni'n ôl i gyfnod pur gynnar, bid sicr i un paganaidd a chyn-Gristnogol. Ynghyd â thystiolaeth yr haenau neu'r elfennau mwyaf hynafol yn y llyfrau cyfraith Cymraeg gellir canfod yn y ffynonellau hyn[22] i ryw raddau ddarlun o sefydliadau'r byd Celtaidd yn gyffredinol. Er mor astrus ac anhydrin yw'r llyfrau cyfraith, yn arbennig y rhai Gwyddeleg, y mae modd canfod y brif amlinell ynddynt a'i gwireddu hi dipyn gan yr hyn a ganfyddwn ni mewn ffynonellau eraill.

Daeth diffiniad yr Athro D. A. Binchy[23] o'r hen gymdeithas Wyddelig fel un lwythol, wledig, hierarchaidd a theuluol yn dra chyfarwydd. Yn wir erbyn hyn cafwyd cryn dipyn o ychwanegu at ei ddiffiniad clasurol ef a pheth goleddfu arno, ond mae'n dal i fod yn un gwerthfawr. Yr uned o ran tiriogaeth oedd y *túath*, term y bu dadlau ac y mae dadlau o hyd ynghylch priodoldeb arfer y gair Cymraeg ' llwyth ' neu'r un Saesneg ' tribe ' amdano. Tiriogaeth gymharol fychan (yn cyfateb yn fras i farwniaeth) oedd y *túath*, dan reolaeth brenin (*rí*), a byddai gan y *rí* awdurdod uniongyrchol dros bobl y *túath* a reolid ganddo. Fe allai hefyd reoli brenhinoedd llwythau eraill yn y gymdogaeth er na fyddai'n deyrn uniongyrchol ar y llwythau hynny. Yr un pryd gallai fod yn ddarostyngedig i'r dosbarth uchaf o frenin yn ôl y Cyfreithiau, sef brenin talaith.

Mae'r nodwedd wledig yn arbennig o wir am Brydain ac Iwerddon. Ond dylem gofio bod rhai o gaerau'r Celtiaid ar y Cyfandir, os nad ym Mhrydain, yn *oppida* o gryn faint, canolfannau trefol nad oes sicrwydd ynglŷn â'u swyddogaeth ond rhai y mae'n rhaid eu bod yn

bwysig ym mywyd economaidd a chymdeithasol a gwleidyddol y broydd yr oeddent wedi datblygu ynddynt.[24] Mae Manching yn Bafaria, *oppidum* y Vindelici, yn cynnwys tir sy'n rhyw filltir a hanner ar ei draws. Tyfodd canolfannau cyffelyb yng Ngâl, megis yn Bibracte neu Alesia. Ym Mhrydain yr oedd Stanwick yn Swydd Efrog yn union cyn y goresgyniad Rhufeinig tuag O.C. 71 yn safle o 850 o erwau, ac yn Maiden Castle yn Dorset yr oedd y gaer yn 45 o erwau. Ond wrth gwrs ffolineb am fwy nag un rheswm fyddai ceisio cyffelybu'r sefyllfa yn Manching, dyweder, i'r hyn a geid yn Maiden Castle.

Yr oedd y drefn hierarchaidd yn un ag ynddi haenau neu lefelau mwy neu lai sefydlog mewn cymdeithas a lle yr oedd gwahaniaethau o ran tras a galwedigaeth (a hynny yn cynnal anghydraddoldeb) yn egwyddor gyfreithiol gydnabyddedig. Ar frig cymdeithas ceid y brenin, yn wreiddiol, bid siŵr, yn ŵr o ddwyfol dras a uniaethid â'r Uchel Dduw ac yn gysegredig. Ef yn Iwerddon oedd y *rí túaithe*. Mae yma ddwy hen elfen Indo-Ewropeïg sy'n dod ynghyd mewn hen enwau personol Celteg Cyfandirol, *Toutorix* (a'r ffurf enidol *Toutorigis*).[25] Mae'r rhain yn cyfateb yn union i'r enwau personol Cymraeg *Tudur* a *Tudri* (HG. *Tutri*) ac yn awgrymu'n glir fod mewn Galeg a Brythoneg deitl cyffelyb i'r un Gwyddeleg *rí túaithe*. Mewn Brythoneg tyfodd ffurf arwahanol i gyfleu'r ystyr a ddynodid gan y ffurf Wyddeleg *rí*, sef **brigantinos* (tarddell y gair Cymraeg *brenin*), un y gellir ei chysylltu ag amryfal ffurfiau diddorol eraill yn yr ieithoedd Celtaidd megis yr hen ffurf lwythol Frythoneg *Brigantes*, yr enw duwies Frythonig *Brigantia*, y Gym. *braint* a'r HLyd. *brientin* ' gŵr rhydd, gŵr a chanddo fraint '. Byddid yn dyrchafu brenin drwy briodas symbolaidd (ἱερὸς γάμος) yn ei uno ef â'i deyrnas naill ai ar ffurf anifail neu ar ffurf merch. Mae digon o dystiolaeth ynghylch hyn, yn arbennig yn Iwerddon.[26] Dadleuodd Charles-Edwards yn gywrain yn ddiweddar[27] ddarfod i'r Brigantes wrthryfela yn erbyn y frenhines Cartimandua ym Mhrydain am na ellid ei dyrchafu hi trwy iawn ddefod priodas a duwies—priodas yr oedd yn rhaid wrthi i sicrhau ffrwythlondeb y tir a'r anifeiliaid a'r gwragedd. Os yw hyn yn gywir (mae'n dibynnu i raddau helaeth ar y dybiaeth nad oedd gan Cartimandua berthnasau o wrywod yn ei theulu), mae'n enghraifft hynod o gryfder daliadau crefyddol y Celtiaid am frenhiniaeth ym Mhrydain.



Islaw'r brenin rhennid cymdeithas eto'n dri phrif ddosbarth, yn cyfateb yn fras i'r rhaniad triphlyg y mae Cesar yn sôn amdano yng ngwlad Gâl. Bu'r dystiolaeth hon yn rhan o sail astudiaethau cymharol dadleuol Georges Dumézil ac yntau'n ceisio canfod system Indo-Ewropeaidd ar dri gwastad cymdeithasol, y system y rhoes iddi'r enw ' ideoleg y tair swyddogaeth sylfaenol '.[28] Yng Ngâl ceid dau ddosbarth o wŷr rhydd a oedd yn dirfeddianwyr, sef y marchogion neu farwniaid (*equites*) y dewisid y cyngor llywodraethol o'u plith, a'r offeiriadaeth ddysgedig a oedd yn cynnwys y *druides* neu'r derwyddon, y *bardoi* neu'r beirdd a'r *vates* neu'r *manteis*, sef y gweledyddion neu ddewiniaid. Yn is eu gradd na hwy ceid y trydydd dosbarth a elwir gan Cesar yn *plebs*. A chyda llaw y prif unedau cymdeithasol yng Ngâl oedd y rhai y cyfeirir atynt fel ἔθνη mewn Groeg a *civitates* gan awduron Lladin, ac fe wyddom ni enwau llawer o'r rhain.[29] O fewn y tiriogaethau llwythol mawr hyn ceid y *pagi*, unedau tiriogaethol neu unedau carennydd llai, ac erbyn cyfnod Cesar yr oedd cynghreirio a chynllwynio gwleidyddol ac ansefydlogrwydd enbyd yn y tir. Mae'n eglur y byddai rhai o'r llwythau mwyaf pwerus yn feistri ar nifer o lwythau eraill. Erbyn hynny hefyd yn lle'r hen gyfundrefn frenhinol datblygasai cyfundrefn o ynadon a etholid yn flynyddol neu reolaeth gan gyngor bychan o arweinwyr oligarchaidd, gwŷr a benodid mae'n lled debyg o blith aelodau teuluoedd a chanddynt linach frenhinol neu bendefigaidd.

Yn Iwerddon yn cyfateb i'r *equites* ceid y bendefigaeth ryfelgar, y tirfeddianwyr grymus, dosbarth a fyddai'n abl ac yn awyddus at ei gilydd i noddi celf a chrefft. Yr oedd yr *oes dána*, yr inteligentsia, yn bur agos atynt hwy o ran statws, yn cynnwys yn y cyfnod cyn-Gristnogol nid yn unig y derwyddon ond hefyd y beirdd, y gwŷr

cyfraith, y meddygon, yr haneswyr a'r cerddorion, y gwŷr proffesiynol. Y trydydd dosbarth, yn cyfateb i'r *plebs*, oedd y gwŷr rhydd, y crefftwyr isradd, y mân ffermwyr, y bobl gyffredin. Hwy ar un olwg oedd sail cymdeithas er na ddylid anghofio y ceid cynhaliaeth neu sail fwy salw ac isradd yn y caethweision y gwyddom ni gyn lleied amdanynt. Diau nad oedd yr haenu yn cael ei gynnal yn ddi-ffael a di-amrywiad. Ond y mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir mai'r bendefigaeth oludog o uchel dras a fyddai ar y brig.

Yn olaf ac yn dra phwysig, yr uned ddynamig mewn cymdeithas oedd y teulu a rhwymau carennydd. Yr oedd hawl a dyletswydd dyn yn dibynnu'n fawr iawn ar ei aelodaeth o amryfal grwpiau o berthnasau. Fel rheol byddai perthynas pobl i'w gilydd yn cael ei olrhain yn agnatig, yn ôl y llinach o du'r gwrywod. Yn wreiddiol grŵp o bedair cenhedlaeth (y *derb-fine* oedd yr enw ar hyn mewn Gwyddeleg) a gydnabyddid yn y gyfraith, disgynyddion yr un hendaid. Hon oedd yr uned arferol o ran yr hawl i feddu eiddo a hi yn y pen draw a fyddai'n gofalu am liaws o rwymedigaethau. Byddid yn cyfnewid darpar wragedd trwy drefniant cyd-rhwng yr unedau ac yr oedd hyn yn fodd i sefydlu cysylltiadau newydd mewn trefn gymdeithasol a oedd yn ymrannu a hollti'n barhaus. Mae'n ddiau fod yma egwyddorion cyffredinol a etifeddwyd o gyfnod cynharach yn hanes y Celt oblegid mae'r cyfreithiau Cymreig a Llydewig yn adlewyrchu system a oedd yn gyffelyb yn eu hanfod. Gan hynny yr oedd yn nhrefn gymdeithasol y Celt fath o undod o ran diwylliant a phwys anghyffredin yn cael ei ddodi ar deyrngarwch personol ac ar drefniadaeth y lliaws yn hytrach nag eiddo'r unigolyn. Byddai'r brenin yn gyfrifol am gynrychioli ei bobl yn eu hymwneud â phobloedd eraill ; ef a fyddai'n cynnal a chadw defodaeth (ac yntau ei hun yn ganolbwynt llawer o ddefodau) ; ef a fyddai'n cynnig croeso a derbyn croeso. Tra bu'r hen draddodiadau yn dal eu tir yn rymus ef a fyddai'n sicrhau yn ei led-gysegredigrwydd ei hun undod a sefydlogrwydd hynod diwylliant y Celt yn ymyl yr haenu neu'r darnio



cymdeithasol a geid wrth fod cydlyniadau newydd yn cael eu sefydlu yn barhaus. ' It was a system ', meddai'r Athro Byrne, ' which had a surface appearance of extreme fragmentation, but which was nevertheless linked into a coherent pattern '.[30] Bernir y byddai'r gwŷr dysg yn grwydrol yn y gymdeithas hon, yn mynd a dod ar draws terfynau llwythol, yn ddosbarth breiniol o wŷr llên ac offeiriaid a chynheiliaid a dehonglwyr pob math ar ddysg a defod a chyfraith a hen draddodiad. Hwy, mewn cymdeithas heb fod a chanddi gyfundrefn ganolog rymus, oedd y sefydliad cenedlaethol ar un olwg. Yr hyn sy'n rhyfedd yw fod ysgolheigion o fri hyd y dydd hwn yn dal i warafun galw cymdeithas felly yn un wâr a diwylliedig.[31]

Mae'n bosibl nad oedd gan y Celtiaid, yn y gorllewin o leiaf, luoedd arfog sefydlog. Byddid yn cynnull y lluoedd yn unig neu yn bennaf ar adeg o berygl neu o ryfel. Yng Ngâl yr oedd hyn ynddo'i hun yn arwydd o gychwyn rhyfel ; ceir sôn am greu dadwrdd â'r arfau a bloeddio cri yn datgan cydsynio â'r hyn a argymhellid gan yr arweinwyr. O hynny ymlaen tan ddiwedd yr ymrafael byddai'r lluoedd yn cael eu cadw yn eu trefn ; fe'u cynullid ac fe'u rheolid yn ôl y llwyth (y *civitas*) y perthynent iddo. Mae Filip[32] yn awgrymu y dichon fod yr arfer ychydig yn wahanol yng nghanolbarth Ewrop. Yno efallai fe geid minteioedd o wŷr rhydd yn cael eu cadw (neu yn eu cadw'u hunain)yn barod ar gyfer rhyfela yn gyson. Darganfuwyd lliaws mawr o feddrodau'r dosbarth rhyfelwrol yn Bohemia, Morafia a Tsiecoslofacia ac olion amlwg o gladdu gwŷr ynghyd â'u harfau ymosodol yn gleddyfau a gwaywffyn ac weithiau hefyd ynghyd â tharianau. Ond ni ellir profi eu bod yn perthyn i fyddin broffesiynol ar sail y dystiolaeth archaeolegol yn unig.

Ceir cryn lawer o dystiolaeth o'r pwys a ddodid ar farchwyr a cherbydau rhyfel wrth frwydro. Nid oes sicrwydd ynglŷn â'r modd y defnyddid y cerbydau. Yn ôl rhai awdurdodau pennaf swyddogaeth y cerbydrhyfelwr oedd gyrru'n ffyrnig tuag at ac ar hyd cadresi'r gelyn er mwyn codi arswyd arnynt trwy'r olwg a fai ar y

gyriad a thrwy'r hyrddio arfau a ddigwyddai a'r dadwrdd aruthrol a geid drwy floeddio a chanu cyrn a tharo ochrau'r holl gerbydau a fyddai wedi eu trefnu ar hyd yr esgyll neu yn gefnlu. Disgynnai'r rhyfelwyr o'r cerbydau a herio'r gelyn i ddod i ymladd gornest gŵr yn erbyn gŵr, herio a fyddai'n fwy neu lai fformwláig, mae'n bur debyg, yn llawn ymffrost a balchder a sôn am wrhydri a llinach a dawn (yn gyffelyb i'r hyn a geir yn rhai o'r chwedlau arwrol Hen Wyddeleg). Yr oedd y Celtiaid yn farchwyr dawnus dros ben ac yr oeddent yn ymfalchïo yn eu gallu i wastrodi ceffylau. Byddid yn addurno'r harnais yn ofalus a cheir cyfeiriadau canmolus at fedrusrwydd cerbydwyr.

Yr oedd rhai o arferion y Celtiaid yn eithriadol o greulon, o leiaf maent yn ymddangos felly i ni yn awr. Mewn llawer man ceir tystiolaeth ynghylch yr arfer o dorri ymaith yn glir bennau gelynion ; adroddir sut y byddid yn eu crogi wrth ffrwynau'r meirch a'u dwyn adref i'w harddangos a'u hoelio ar byst drysau'r tai neu i'w cadw'n greiriau mewn cysegrleoedd. Weithiau byddid yn perarogli'r pen a'i gadw i'w arddangos i ymwelwyr. Ceir arwyddion clir o hyn yn llenyddiaeth yr hen fyd ac yn llenyddiaeth gynnar Cymru ac Iwerddon yn ogystal ag yn y dystiolaeth archaeolegol drawiadol ac enwog o Entremont gerllaw Aix-en-Provence (Bouches-du-Rhône) a Roquepertuse (Bouches-du-Rhône). Mae hi'n bur amlwg nad mater syml o fri a balchder a gwr-hydri oedd casglu pennau. Cynrychiolai'r pen y dyn cyfan a dichon fod a wnelo torri pen yn wreiddiol ag arferion hen gwlt neu goel ynglŷn â ffrwythlondeb neu reoli ysbryd y marw. Yn ôl Dr. Anne Ross[33] byddid yn mawrygu ac addoli'r pen yn symbol o ddwyfoldeb ac o alluoedd y byd arall, yn sail bod a gorsedd yr enaid. Dyna'i dyfaliad teg hi. Bid sicr yr oedd yma hen arfer, ond mae'n amlwg ddarfod datblygu hyn yn gwlt cymhleth gan y Celtiaid, un o brif hynodion eu mynegiant crefyddol o bosibl. Dyfelir fod y pen a dorrwyd ag ynddo, fel petai, y rhinweddau a'r pwerau a berchid yn bennaf gan y Celt



—ffrwythlondeb, proffwydoliaeth, doethineb ac anfarwoldeb.

Nid yw hi'n syn o gwbl fod y Celtiaid, gan hynny, wrth iddynt ryfela, wedi gwneud cryn argraff ar feddyliau'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid fel ei gilydd. Rhoddir disgrifiad o'r olwg oedd ar y rhyfelwyr Celtaidd yn fynych yn y ffynonellau llenyddol ac fe'u portreadir mewn cerfluniaeth glasurol yn eu hysblander a'u gwae. Dangosant sut y gallai'r Celt amlygu dewrder rhyfeddol ac urddas bonheddig. Yr oedd Cesar yn ymwybodol iawn o wrhydri anghyffredin y Celtiaid yng ngwlad Gâl yn y ganrif gyntaf C.C. ac yn y llenyddiaeth Gymraeg a Gwyddeleg gynharaf dodir pwys ar ddathlu arwriaeth y bendefigaeth ryfelwrol a hynny, debyg iawn, yn barhad o hen draddodiad.

Y pwnc anhawsaf oll i'w drin yn foddhaol yw crefydd y Celt a'i syniadau crefyddol. Bydd ysgolheigion gwerth eu halen yn bur ochelgar wrth fynd i'r afael â'r wedd hon. Y pennaf rheswm yw mai tystiolaeth dameidiog odiaeth a gadwyd inni, megis enwau duwiau a duwiesau, cerfluniau a chwedlau a hen draddodiadau mwy neu lai drylliog. Gwnaed y defnydd mwyaf effeithiol o'r chwedlau er mwyn dirnad meddylfryd y Celt gan Marie Louis Sjoestedt-Joñval a'r brodyr Alwyn a Brinley Rees. Ond pwysleisiodd y Reesiaid fod amryfal elfennau yn gyfrodedd mewn traddodiad crefyddol, yn ddefod a chelfyddyd yn ogystal â mytholeg a bod pob un o'r elfennau hyn yn ddealladwy yng ngolau ei gilydd.[34] Ysywaeth, y mae anawsterau gyda'r dystiolaeth ynghylch pob un o'r elfennau hyn yn nhraddodiad crefyddol y Celt. Gan hynny y mae hi'n bur anodd pennu hynodrwydd neu arbenigrwydd crefydd y Celt. Byddai rhai'n mynnu na ddylid anelu at wneud hynny o gwbl oll. Nid diberygl ychwaith mo'r ymgais i ganfod cyfatebiaethau cyd-rhwng crefydd un bobl a chrefyddau pobl eraill.

Sut bynnag mae'n deg dweud y byddai gan bob llwyth ei dduwiau a'i dduwiesau ei hunan ac fe wyddys y gallai amryw lwythau gydnabod yr un duwiau a duwiesau. Er enghraifft, yn y Rheinland ceir cryn nifer o gysegriadau

i'r *dii Casses* ond nid yw natur y cwlt yn glir o gwbl.[35] Yng ngogledd-ddwyrain Gâl yr oedd cwlt y duw a bortreadir a chanddo dri phen yn un eang ei ddosbarthiad (daeth cryn nifer o enghreifftiau i'r golwg ym Mhrydain ac Iwerddon hefyd) ; ni wyddys enw'r duw hwn ac er dyfal ddamcaniaethu ni wyddom ni pa swyddogaeth a briodolid iddo. Ond yr ŷm ni yn gwybod fod y Celtiaid yn tybio fod rhyw arwyddocâd arbennig i'r rhif tri. Yr oedd y triawd yn ddull yr hoffid ei arfer ar gyfer crynhoi a chadw dysg draddodiadol. Ceir tuedd i gael grwpiau o dri chymeriad a hwythau yn fynych iawn yn cynrychioli ffurf driphlyg ar yr un person.

Cadwyd llawer o dystiolaeth hefyd ynglŷn ag anrhydeddu'r *matres* neu'r *matronae* sy'n adlewyrchu cwlt a darddodd o'r syniad am y ddaear fel mam ddwyfol a daw hyn i'r golwg yn glir yn nhraddodiadau mytholegol y Celt. Fe wyddys am y modd y ceir *Modron* yng Nghymru yn cyfateb i *Matrona* yng Ngâl. Mae'r cerfluniau yn dangos y mamau fel rheol yn grwpiau o dair, hefyd weithiau yn barau o ddwy neu ar eu pennau eu hunain. Byddant yn cario basgedeidi o ffrwythau, *cornucopiae*, babanod ac arwyddion eraill o'r cyswllt rhyngddynt a ffrwythlondeb y ddaear a'r ddynoliaeth.[36]

Nodwyd laweroedd o weithiau, ond yn fwyaf arbennig yn ddiweddar gan Ross a Birkhan, sut y mae adar ac anifeiliaid a chanddynt ran bwysig iawn yn syniadaeth grefyddol y Celt er na allwn ni ddim ond lled ganfod arwyddocâd hyn oll. Ond mae torllwyth mawr o dystiolaeth ar glawr ynglŷn â hyn. Gwyddys, er enghraifft, am y dduwies *Epona*, duwies ar ffurf caseg ; portreadir hi'n fynych mewn cerfluniau ac enwir hi yn yr arysgrifau yn amlach ac yn fwy eang o ran dosbarthiad nag unrhyw dduw neu dduwies Geltaidd arall, a hynny, mae'n wir, i raddau am iddi ddod yn boblogaidd iawn gan wŷr meirch y fyddin Rufeinig. Yr oedd y march a'r gaseg yn bwysig yn economaidd ac nid yw hi'n syn ddarfod adlewyrchu hyn mewn cerfluniaeth a chwedlau. Amlygir y duedd hon ar arian bath, ar gawg Gundestrup a'r corff mawr o waith metel La Tène. Mae ffynonellau Gwyddelig yn



adlewyrchiad pellach o'r dystiolaeth ynglŷn â mawrygu'r meirch gan y Celtiaid. Cysylltir arwyr o fri mewn rhyw ffordd oruwchnaturiol neu'i gilydd â'u meirch, a hwythau wedi eu magu gyda hwy a rhawd eu bywyd wedi ei gyplysu ag eiddo cymheiriaid meirchiol. Mewn chwedloniaeth Gymraeg fe gofir ddarfod dwyn yr arwr Pryderi oddi ar ei fam Rhiannon y nos y ganwyd ef a chosbir Rhiannon druan ar gam am ladd ei phlentyn drwy ei gorfodi i eistedd wrth esgynfaen a bod yn barod i gario gwesteion a theithwyr i'r llys ar ei chefn. Hefyd cyplysir colli ac adfer ei mab â geni ebol ; cyflwynwyd hwn i'r mab yn nes ymlaen gan iddo amlygu diddordeb mewn meirch. Mae yn y chwedloniaeth hon gysylltu mab y ferch-dduwies ag ebol, a hynny'n hen adlais aneglur o draddodiadau drylliog y byd Celtaidd paganaidd.

Yna ar allorau enwog Paris a Trier portreadir anifeiliaid ac adar a choed. Mae'n debyg bod rhyw arwyddocâd cwltig neu fytholegol-grefyddol i'r motiffau. Ond pur dywyll yw hyn inni heddiw er ein bod ni'n gwybod am y pwys mawr a ddodid ar goed cysegredig, ar y tarw dwyfol ac ar adar arallfydol (a hynny yn drioedd) mewn ffynonellau Celtaidd ynysol. Mae crefydd y Celt yn tueddu i fod yn enigmatig ni waeth pa ffynonellau a astudiwn ni. Hyd yn oed yn nhystiolaeth llenyddiaeth gynnar Cymru ac Iwerddon mae'r hen draddodiadau'n ddarniog ac wedi eu cymylu neu eu llygru mewn amryfal ffyrdd. Cymysgwyd y traddodiadau trwy fod un haen yn graddol dyfu ar ben y llall a thrwy esgeulustod neu gelu bwriadus a helaeth gan wŷr monastig, y sawl a ddodai bwys ar y grefydd Gristnogol ac ar draddodi dysgeidiaeth yr eglwys Gristnogol heb ei halogi fwy na mwy gan hen syniadaeth baganaidd.

Ond nid yw hi'n syn o gwbl fod Cesar wedi dweud am y Galiaid eu bod yn bobl a oedd yn ymroi'n hynod i grefydd (*natio est omnis Gallorum admodum dedita religionibus BG* vi. 16, 1). Mae'r hyn a wyddom ni am y derwyddon pwerus a thra galluog yn profi hynny am y Celtiaid, a'r modd y byddent yn mawrygu'r adar a'r anifeiliaid a'r coed, y ffynhonnau a'r afonydd ac yn claddu neu fwrw

i'r dŵr yn ddefodol doreth mawr o offrwm. Daeth tystiolaeth drawiadol dros ben i'r golwg ynglŷn â hyn yn ystod yr ugain mlynedd olaf yma, yn arbennig wrth ffynhonnell yr afon Seine nepell o Dijon ac yn Chamalières (Puy-de-Dome) yn Auvergne.[37] Mae'n ddigon posibl nad oedd Cesar yn cyfeiliorni ychwaith wrth synied fod gan y Galiaid brif dduwiau a chanddynt swyddogaeth neu briodoleddau arbennig. Fe all lluosogrwydd yr enwau brodorol ar dduwiau a duwiesau fod yn gamarweiniol ; tueddwyd i orbwysleisio a chamddehongli natur leol ac amlranedig crefydd a chwedloniaeth y Celt. Sut bynnag, nid yr enwau (er eu pwysiced) yw'r ffynhonnell orau ar gyfer cael golwg ar hanfod a bras gyfluniad y grefydd honno, ond yn hytrach y dystiolaeth yn y chwedlau a'r portreadau cerfluniol.

Bûm i'n ymddiddori'n bennaf ar y cychwyn yn y dystiolaeth ynghylch hen ieithoedd neu dafodieithoedd Celtaidd, yr olion cynharaf a gadwyd i ni heddiw o'r gangen Geltaidd o ieithoedd ar hyd a lled y parthau y lledaenodd y Celtiaid iddynt. Mae'r dystiolaeth hon dipyn yn fwy amrywiol a gwerthfawr nag a dybir weithiau gan y sawl nad yw wedi cael y cyfle i'w hastudio. Mae gennym ni filoedd ar filoedd o enwau priod, itemau yng ngweithiau awduron yr hen fyd, mewn hen eirfâu a mewn ieithoedd Ewropeaidd eraill sy'n adlewyrchu ieithwedd a dulliau ymadroddi'r Celt ar wahân i'r dystiolaeth ynghylch Celteg Ynysol. Cadwyd inni dystiolaeth arysgrifol gyfoethog yng ngwlad Gâl yn fwyaf arbennig, ond hefyd o ogledd yr Eidal ac o'r penrhyn Iberaidd. Daw enghreifftiau newydd i'r golwg o hyd megis y ddau destun cymharol hir, y naill o Chamalières (Puy-de-Dôme) yng Ngâl a'r llall o Botorrita (Zaragoza), dau destun pwysig iawn a ddarganfuwyd yn ddiweddar.[38] Rhaid imi ddyfynnu yma unwaith eto sylw herfeiddiol Joshua Whatmough gynt ynglŷn ag anwybodaeth rhai sylwedyddion dioglyd am Aleg a Chelteg y Cyfandir yn gyffredinol. Meddai ef yn nodweddiadol ddiamynedd ' The comment is often heard that "little is known about Gaulish". This should be translated "Mr. X knows



little or nothing about Gaulish" or "It is hard to find out just what is known about Gaulish" '.[39]

O blith yr holl amrywiaeth o destunau gwerthfawr a ddaeth i'r golwg mae un sy'n ffefryn arbennig gennyf i. Fe'i cofnodwyd ar gwpan bach a ddarganfuwyd yn 1871 yn Banassac (Lozère), yn awr yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn St. Germain y tu allan i Baris. Yr oedd Banassac yn ganolfan pwysig yn y diwydiant cynhyrchu llestri yn y ganrif gyntaf O.C. Y darlleniad a'r dehongliad gorau o'r arysgrif fach hon yw eiddo Vendryes.[40] Mae ynddi dri gair, *neddamon delgu linda* gyda'r ferf o flaen ei gwrthrych ac ar y dechrau'n deg (er mwyn pwyslais o bosibl) ffurf enidol sy'n dibynnu ar y gwrthrych. Yr ystyr yw ' daliaf ddiod y nesaf ', h.y. daliaf ddiod y nesaf i ddefnyddio'r cwpan, diod cymdogion, gwesteion ac ymwelwyr. Y llestr sy'n llefaru a'r arysgrif yn atgoffa'r sawl a fydd yn yfed ohono y dylai ofalu, ar ôl yfed, ei drosglwyddo i'r nesaf yn y cwmni. Dyma efallai arwydd o'r cwpan cyffredinol y soniodd Posidonius amdano mor gynnil awgrymog. Mae'n arwydd o'r gwarineb a'r croeso y gallai pendefigaeth ryfelgar a thrychinebus o afradlon y Celt (yn ôl ei delfryd, o leiaf) eu hawlio a'u harddangos. Ond cofier yma y ceir arysgrifau cyffelyb yn Lladin yn adlewyrchu yr un math o gonfensiwn yn union.

Llên lafar oedd eiddo'r Celt yn yr hen fyd, ond rhaid inni bwysleisio'i bodolaeth hi yn llên helaeth a dylanwadol a thra amrywiol.[41] Diau mai parhad mwy neu lai uniongyrchol o'r hen ddulliau a thraddodiadau Celtaidd a geir yn llenyddiaeth gynnar Cymru ac Iwerddon. Mae sylwadau awduron megis Athenaeus, Strabo, Diodorus Siculus ac Ammianus Marcellinus yn dweud wrthym ni yr hyn y byddai'n rhaid inni dybied ei fod yn wir hyd yn oed pe na bai'r dystiolaeth lenyddol glasurol hon wedi ei chadw inni. Swm a sylwedd eu sylwadau yw fod gan y Celtiaid feirdd neu brydyddion yn canu mawl a chanu dychan, yn canu cerddi arwrol ac yn rhoi adloniant, eu bod yn ddosbarth pwysig a dylanwadol iawn, yn arbennig efallai ar adeg o ryfela, eu bod yn canu i gyfeiliant offeryn

neu offerynnau a'u bod yn ceisio ac yn cael tâl am eu gwasanaeth. Mae'n eglur hefyd fod gan y Celtiaid ddosbarth o bobl y gellir eu galw'n weledyddion neu ddaroganwyr a dosbarth breiniol o offeiriaid a ddodai bwys ar gadw a chynnal eu dysg a'u traddodiadau a'u dylanwad, er nad yw'r ffin o ran swyddogaeth rhwng y ddau ddosbarth olaf hyn yn glir ar waetha'r holl drafod a fu ar y pwnc.

Mae'r traddodiad llenyddol clasurol Posidonaidd a'r chwedlau arwrol Hen Wyddeleg yn dangos inni'r Celtiaid yn torsythu'n falch, yn bytheirio, yn groendenau ac yn fwy na pharod i ddefnyddio'u cleddyfau. Ond darlun unochrog yw hwn. Mae'n rhaid pwysleisio a chofio y gallent esgyn i'r uchelfannau ym myd celfyddyd gain a byd y meddwl. Yr oedd gan y Celtiaid eu dulliau a'u traddodiad nodedig eu hunain o ran celfyddyd, yn hirhoedlog a dynamig odiaeth. Yn Ewrop yr hen fyd y tu hwnt i'r byd clasurol cynhyrchwyd celfyddydwaith o fri gan y Scythiaid a'r Iberiaid yn ogystal â'r Celtiaid. Ond at ei gilydd y Celtiaid yn unig a lwyddodd i drawsffurfio'r hyn a fabwysiadwyd ganddynt o'r de ac o'r dwyrain trwy synthesis o'r iawn ryw i fod yn gelfyddyd newydd, un yr aeth rhai beirniaid cyn belled â'i galw'n drwyadl wreiddiol. Hefyd fe barhaodd eu celfyddyd am yn hir yn Ewrop ac yn hwy fyth mewn moddau arbennig iawn yn y gwledydd Celtaidd newydd, yn arbennig yn Iwerddon Gristnogol.

Gwyddys am amryw ffynonellau i'w celfyddyd o du'r bobl y daethant i gyswllt â hwy, a rhai o'r bobloedd hynny yn trosglwyddo dulliau a dderbyniasent o darddellau ymhell y tu hwnt i'w tiroedd hwy eu hunain. Dododd Miss Nancy Sandars bwys yn ddiweddar ar swyddogaeth y Scythiaid a gwaith Achaemenaidd mewn aur ac arian ar gyfer dirnad sut a pha bryd y treiddiodd yr elfen ddwyreiniol i Gelfyddyd Gynnar y Celt.[42] I ryw raddau y lledaeniad eang o'r hen gartrefleoedd, mae'n lled debyg, sy'n cyfrif am y benthyca helaeth oddi ar y Groegiaid, y Scythiaid a'r Thraciaid, y Rhufeiniaid a'r Etrwsciaid. Hyn sy'n egluro natur gyfansawdd *repertoire*



sylfaenol eu celfyddyd sy'n cynnwys, er enghraifft, fotiffau fel y *palmette* Groegaidd (addurn ar ffurf blodyn y gwyddfid), y speiral neu'r cylchdro crafanc Aegeaidd, y *triquetra* neu'r patrwm teirffordd Helenig a drosglwyddasid o'r dwyrain, yr addurn yin-yang Sineaidd a ffigurau artistig anifeilig a oedd yn ffasiynol gan y Scythiaid. Dylid cofio, serch hynny, bod amryw o'r patrymau sylfaenol yn perthyn i'r Celtiaid eu hunain, e.e. y crwth neu'r delyn, y ddalen ar ffurf coma a'r chwyrligwgan. Fe fynnwyd nad oes genesis i Gelfyddyd Gynnar y Celtiaid, ei bod hi'n fflachio i'r golwg yn y bumed ganrif C.C. yn ei haeddfedrwydd a'i pherffeithrwydd a'i hastrusi hynod. Ond bellach y mae gwell dirnadaeth gennym o'r cefndir ac o draddodiadau a ddaeth ynghyd mewn modd mor ffrwythlon a thrawiadol, a hyn yn rhagori ar eglurhad Jacobsthal gynt a ganfuasai darddiad triphlyg i'r gelfyddyd hon. Mae tueddiad bellach i fynnu y dylid dwyn trefn i mewn i'r syniadaeth heterogenaidd a adlewyrchir yn y prif dermau traddodiadol a arferwyd i ddynodi dulliau a chyfnodau celfyddyd.[43] Nid yw'r dulliau yn dilyn ei gilydd yn drefnus ; maent yn amrywio o ran dosbarthiad a pharhad o fan i fan ac y mae cymhlethdod o gysylltiadau yn eu cydio ynghyd. Bellach dodir pwys cynyddol ar ganfod arwyddion o waith crefftwyr unigol neu ysgolion o grefftwyr neu weithfeydd arbennig. A chelfyddyd y Celtiaid at ei gilydd sy'n datgelu orau inni eu gwarineb, eu dawn greadigol a'u hestheteg.

O'r bumed ganrif ymlaen, yn fras iawn, y gellir yn lled ddidrafferth adnabod moddau neu dulliau arbennig celfyddyd Geltaidd, a hynny yn bennaf yn y Rheinland a chylch dyffryn afon Donaw. Datblygodd ei ffurfiau a'i motiffau nodweddiadol ei hun. Amlygwyd yn arbennig hoffter y Celt o addurn moethus ac o liw (drwy arfer cwrel ac enamel) a'i awydd cyson i ddefnyddio llinellau wrth addurno a pheri iddynt lunio patrwm drwy droi a throellu, drwy gylchdroi a thonni'n gelfydd. Un o hynodion y gelfyddyd hon yw'r modd y parwyd iddi orchuddio amryfal bethau a oedd yn ddefnyddiol ac yn angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd â chyfoeth o addurn

clòs a fyddai'n fynych yn afrealistig a haniaethol gywrain. Cymharol brin yw'r dystiolaeth bensaernïol tan y cyfnod Rhufeinig—o leiaf y mae'n brin o ran ei diddordeb artistig. Prin hefyd yw'r cerfluniau brodorol, yn arbennig gerfluniau mawr, ac eithrio mynych bortreadu'r pen dynol. Yn hytrach fe ddarlunnir y gelfyddyd yn bennaf ar bethau bychain, yn gywasgedig gain a chelfydd.

Un enghraifft enwog o blith llawer sy'n dangos camp y Gelfyddyd Geltaidd Gynnar hon yw'r ddisg fach a ddarganfuwyd yn Auvers-sur-Oise (Seine-et-Oise).[44] Un fechan ydyw, yn bedair modfedd ar ei thraws. Fe'i darganfuwyd yn 1882 mewn carnedd ond heb dystiolaeth ynglŷn â'i phwrpas ; ond y tebyg yw mai clawr bychan ydyw yn hytrach na rhan o harnais ceffyl. Y dyddiad tebygol yw tua diwedd y bumed neu ddechrau'r bedwaredd ganrif C.C. Mae yma ddwy ddisg o efydd ynghyd, a'r patrymau wedi eu cerfio yn yr efydd a gorchudd tenau o aur wedi ei forthwylio dros y wyneb a chydag addurn o gwrel neu bast gwydrin coch wedi ei osod i mewn yn y patrymu. Addurnwyd y ddisg â phedwar crwth y gellir eu canfod mewn mwy nag un ffordd yn ôl fel y darllenir y patrwm, fel y dangosodd Jacobsthal. Y prif elfennau yn y rhain yw haneri motiff y *palmette* wedi'u dynodi ar lun S sgroliog. Gellir canfod y crythau fel rhai sy'n tyfu o'r canol tuag at yr ymyl. Rhwng sgroliau'r traed yn y canol saif rhyw fath o alembig â'i ben i waered. Yn ôl darlleniad arall canfyddir pedwar lotws yn tyfu o'r ymyl. Newidiodd gwedd y crythau yn awr. Dadelfennwyd y rhai a ganfuwyd gyntaf ; cyfyd rhai eraill yn eu lle â'u traed ar led (gyda bwlch mawr rhyngddynt) yn sefyll ar y cylchyn. Dyma batrymu sgroliog-flodeuog sy'n fesmerig ymron, un y dywedwyd yn gwbl gywir y gellir ei astudio yn ei amrywiaeth a'i ailadrodd esmwyth heb flino. Mae'r patrwm ei hun yn un diderfyn, yn un ag iddo ryw ryddid llifeiriol a reolwyd gan ddisgyblaeth lem. Sylwer y ceir awgrymiadau prin o bortreadu yn steilistig wynebau dynol wrth i'r llinellau droi a chylchu. Mae yma yn wir y priodoleddau hynny a bwysleisiwyd gan Sandars[45] wrth drafod natur celfyddyd La Tène, y ' triskel ' sy'n



gyfuniad o amwysedd ac o dyndra ac o gyflwyno rhyw feddylfryd cyfrin, rhyw ddelfrydaeth wiw. Mae'n ymddangos mai celfyddyd pobl hyderus a chymdeithas nad oedd o bell ffordd yn ansefydlog anniogel ydoedd y gelfyddyd Geltaidd gynnar, un a'i champ i gryn raddau mewn ailadrodd motiffau a'u cyfansoddi a'u dolennu ynghyd yn arddull newydd, fywiog.

Yn dilyn yr arddull lem hon cafwyd cyfnod yr arddull rydd, o tua chanol y bedwaredd ganrif C.C. ymlaen trwy'r drydedd, cyfnod toreithiog a gwreiddiol yn hanes celfyddyd y Celt. Hon oedd oes enwog cyfuno motiffau a'u hamrywio, cyfnod ailgyfansoddi patrymau gyda rhyddid sy'n wirioneddol ysbrydoledig, gyda rhyw ferw o droi a chylchdroi a dyfeisgarwch cynnil gyfrwys ac ymdoddi patrymau yn ei gilydd. Yn fynych fe gedwir eto egwyddor symetrig i reoli cyfansoddiad ond hefyd mynnir yn awr fwy a mwy o afreoleidd-dra medrus o fewn y meysydd a addurnir. At ei gilydd llunnir y patrymau â'r llaw, nid â chwmpawd a chydag ailadrodd diamrywiad. Mae celfyddyd y Celt bellach yn llawn amrywiaeth annisgwyl, anghyfartaledd aflonydd a chreu tebygrwydd ffals rhwng un man a'r llall a chyfochredd nad yw'n ymwthio i'r amlwg. Syncretiaeth, cymhlethdod, amrywiaeth, dyna'r tri gair sy'n disgrifio prif deithi'r gelfyddyd hon. Ond ar y cyfandir, ac ym Mhrydain yn ogystal i raddau, tan ddylanwad celfyddyd Rufeinig adferwyd dulliau symetrig ofalus o'r newydd. Yr un yw'r motiffau o hyd ond bod gorchest orawenus y Celt yn awr wedi ei ffrwyno a'i rheoli gan egwyddor trefn a chymesuredd a chydbwysedd. Oblegid celfyddyd wrthglasurol ydoedd un y Celt yn y bôn. Nid yw hi'n efelychu natur ; yn hytrach mae hi'n ceisio distyllu'r hanfodion a'u portreadu hwy nes creu rhywbeth cyfrin sy'n celu llawer ac awgrymu llawer. Ymwrthod â realaeth a wneir, chwedl Duval,[46] a chyfleu argraff, syniad neu ddelfryd. Anffurfio'r model naturiol sy'n creu'r effaith artistig addurnol ; dodir pwys ar elfennau sy'n llunio patrwm a all gyfleu emosiwn esthetig neu feddyliol yr artist a'r ddelfryd a ganfuwyd ganddo wrth bortreadu.

Dangosir y ddelfryd, y meddylddrych, boed hardd, boed hagr, drwy liw a llinell a cherfiad yn patrymu'n rhythmig. Boddhau'r dychymyg a wneir, a cheir yn y patrymu dyndra hynod ynghyd â'r argraff o symudiad neu wead parhaus sy'n bywiocáu'r gelfyddyd ; mae yma rywbeth lledrithiol amwys hefyd, rhywbeth awgrymog yn hytrach nag amlinell lem a chlir, a thwf a llif a phlethiad llinellau yn peri bod dyn yn synhwyro camp creu'r motiffau a'r rheini yn bur fynych yn fotiffau ffals yn osgoi'r patrymau dilys gonfensiynol, ac yn hynny hefyd rywsut amlygir eiddgarwch dawnus gymhleth i osgoi realaeth.[47] Caf i'r teimlad, yn gam neu'n gymwys, fod yn y gelfyddyd hon yn ei haeddfedrwydd cyfoethog lawer o'r rhagoriaethau hynny y gellir eu canfod yn ddibrin yn llenyddiaeth, yn arbennig farddoniaeth, gynnar Cymru ac Iwerddon—cytgord a chyferbyniad, cynildeb ac anesmwythyd, dychymyg helaeth a delfrydaeth.

Ni allaf lai na chrybwyll yma'r pen trawiadol o Mžecké Žehrovice yn Tsiecoslofacia, pen wedi ei gerfio o garreg lychlyd hawdd ei thrin rywdro yn y drydedd neu'r ail ganrif C.C. mae'n bur debyg.[48] Fe'i darganfuwyd yn ddamweiniol yn 1943 y tu allan i amgae petryalog (*Viereckschanze*), amgae ag iddo warchglawdd hirsgwar mawr, safle yr oedd a wnelai â chadw defod neu addoliad efallai. Mae'r llygaid almwn, y clustiau megis blagur, yr aeliau a'r mwstas â'u patrwm troellog gyda'r amlinell yn troi a chylchdroi ar y pen mewn speiralau, mae'r rhain i gyd yn dangos elfennau steilistig sy'n nodweddiadol o gelfyddyd y Celt. Ceir yma yn ogystal y gwallt wedi ei droi yn ôl yn addurnol, y dorch (ddefodol ?) am y gwddf a'r ' twll sigaret ' fel y galwyd ef, y nodwedd sydd mor gyffredin a bwriadol am ryw ddirgel reswm wrth enau cynifer o bennau Celtaidd ar draws rhan helaeth o gyfandir Ewrop. Fe allai fod yn yr agoriad hwn arwydd o lif geiriau proffwydol o'r pen dwyfol ac o awdurdod a gallu geiriau a phroffwydoliaeth y pen.[49] Mae i'r pen hwn hefyd, yn wahanol i lawer o wynebau Celtaidd olwg dirion, a hynny er nad oes neu efallai am nad oes dyfnder yng ngherfiad amlinell yr wynepryd. Ond y mae camp



arno a diau ei fod wedi ei barchu a'i drysori mewn oes ymhell cyn yr eiddom ni. Mae'n enghraifft wych o ddawn y Celt i ochel rhag efelychu natur yn fanwl gywir a rhag patrymu haniaethol cwbl anystwyth a difywyd.

Gall ysgolheigion ein hoes ni, fel llawer o'u blaen, gael eu swyno'n ormodol os na fyddant yn ofalus gan syniadau annelwig am ' ddelfryd ' ac ' Oes Aur ' Geltaidd, am gyntefigrwydd a'r hen fyth am yr Anwariad Bonheddig. Yn awr eu hanterth yr oedd y Celtiaid yn ddiamau yn bobl wrol a galluog, yn feiddgar a choncweriol. Ond er iddynt anrheithio Rhufain a Delphi yn y drydedd ganrif C.C. a threiddio cyn belled â Galatia a'r Alban a'r penrhyn Iberaidd, fe drodd y llanw yn eu herbyn. Darostyngwyd rhannau helaeth iawn o diriogaeth y Celt, gan y Rhufeiniaid yn bennaf, a dinistriwyd llawer iawn o sail a sylwedd y bywyd Celtaidd a'r gymdeithas Geltaidd. Cofier yr un pryd i lawer o ffactorau mewnol fod yn rhwystr ar ffordd llawn dwf a goruchafiaeth eu diwylliant yn Ewrop, eu diffyg undod hwy eu hunain ar adegau tyngedfennol a'u hymrafael rhyfelgar, eu diffyg llywodraeth ganol gref ac effeithiol, dadfeiliad a malurio graddol eu hunaniaeth yn wyneb gorleth o berygl a phwyso o'r tu allan, eu methiant i bob golwg i beri i'w delfrydiaeth arwrol, i'w syniadaeth am y doeth a'r perffaith, ddwyn ffrwyth yn eu bywyd bob dydd. Hefyd rhaid nodi mai gormodiaith pruddglwyfus a naïf yw honni, fel y gwnaed o bryd i'w gilydd, bod y Celtiaid wedi eu tynghedu i ddioddef cam eu hunain yn hytrach na gwneud cam ag eraill, neu eu bod wedi eu darostwng a'u cyflyru a'u mesmereiddio gymaint gan eraill nes colli'r ddawn i'w hadnabod eu hunain, neu eu bod wedi crwydro ac ymfudo cymaint nes eu bod yn alltudion yn dragywydd.

Serch hynny mae sylwedyddion yr hen fyd, yn arbennig y rheini sy'n dilyn traddodiad gwerthfawr Posidonius, yn portreadu'r Celtiaid fel pobl ryfelgar ac ymffrostgar, weithiau'n ffiaidd a chreulon, ac yn anystyriol neu fyrbwyll o wrol, ond hefyd, sylwer, yn rhai a fyddai'n torri eu calonnau yn hawdd, yn nwydus ac afieithus a huawdl,

yn ddadleugar a chynhennus, yn gyfnewidiol ac yn fynych yn afradlon dros ben.[50] Yr oedd ganddynt eu delfrydau o ran haelioni a lletygarwch, o ran yr hyn sy'n weddus ac ynglŷn ag ymddwyn ac edrych yn iawn ; yr oeddent wedi eu llwyr feddiannu gan grefydd ac nid oedd angen anogaeth arnynt i ymroi i ddysg a choethi'r meddwl. 'Rwy'n dod yn fwyfwy argyhoeddedig nad darlun esgeulus a chamarweiniol nac ychwaith un anystyriol eithafol neu afreal mo'r darlun traddodiadol hwn. Nid yw'r orchest, gan hynny, na phrin nac anamlwg. Mae harddwch a thynerwch a gwreiddioldeb yn hen addurn y Celtiaid ; mae eu celfyddyd yn un wych a lliwgar ; mae gwydnwch a gwroldeb yn eu cymeriad yn ogystal â digalondid a thristwch.

Mae'n rhaid inni ddal i geisio cael dirnadaeth fwyfwy cywir a chyflawn o'r dreftadaeth Geltaidd a fu'n lefain mor rymus yn Ewrop, yr hen undod a'r hen amrywiaeth, didoriant ysblennydd dawn a diwylliant y Celt yn eu haml weddau ar draws tiriogaeth eang ac ar hyd canrifoedd maith. Dyma faes toreithiog i weithio ynddo, un sy'n rhan annatod o'r cyfoeth o wybodaeth sydd gennym ynghylch anian a phrifiant dyn, a maes sy'n sylfaenol bwysig i'r neb a fynno astudio iaith a llên Cymru ac eiddo pob un o'r gwledydd Celtaidd eraill. Dylai dyfal durio yn y maes hwn fod yn rhan o briod dasg Adran y Gymraeg yn Abertawe, mewn Prifysgol sydd eto gobeithio, yn arbennig ar awr o brysur bwyso, am i'w haelodau dreiddio'n bwyllog y tu hwnt i hen orwelion a dal gafael ar wybodaeth fwy trylwyr a'i thraddodi i eraill.



## NODIADAU

1. Ar gydberthynas archaeoleg a hanes gw. D. P. Dymond, *Archaeology and History, a plea for reconciliation* (London, 1974).

2. Gw. F. T. Wainwright, *Archaeology and Place-names and History* (London, 1962), 111.

3. John Rhŷs, *Celtic Britain* (London, 1882), 272.

4. Gw. sylw John Chadwick i'r un perwyl ynghylch Groeg yn R. A. Crossland ac Ann Birchall (gol.), *Bronze Age Migrations in the Aegean* (London 1973), 254.

5. op.cit., 99. Mae angen mwyfwy o ofal ynglŷn â thermau a methodoleg hefyd, gw. J. P. Mallory, *The Journal of Indo-European Studies* i (1973), 21-65. Ni ddylid ychwaith anwybyddu rhybuddion tebyg i eiddo Savory yng *Nghylchgrawn Hanes Cymru* v (1971), 393-5.

6. Gw., er enghraifft, Humphrey Case yn Colin Renfrew (gol.), *The Explanation of Culture Change : Models in Prehistory* (London, 1973), 35 yml.

7. *Antiquity* xlii (1968), 255-62 (yma 261). Cafwyd cyfres ddiddorol o erthyglau ar amcanion archaeoleg ac ar yr Archaeoleg Newydd yn *Antiquity* yn ddiweddar (cyfrolau xliv-xlvii).

8. Gw. William Y. Adams, *Antiquity* xlii (1968), 194-215 ; hefyd Grahame Clark, ibid., xl (1966), 172-89 a Leslie Alcock yn Charles Thomas (gol.), *The Iron Age in the Irish Sea Province* (London, 1972), 108

9. Am syniadau Renfrew (yn dilyn L. R. Binford i gryn raddau) gw. *The Emergence of Civilisation. The Cyclades and the Aegean in the Third Millennium B.C.* (London, 1972) ; *Before Civilization* (London, 1973) ; *Social Archaeology* (Southampton, 1973) ; *British Prehistory, a new outline* (London, 1974).

10. Gw. *Antiquity* xlvii (1973), 176 yml.

11. Gw. *Proc. of the Second International Congress of Celtic Studies . . . Cardiff 1963* (Cardiff, 1966), 3 yml., 31 yml.

12. Yma gweler sylwadau Barry Cunliffe yn ei ragymadrodd i'w gyfrol *Iron Age Communities in Britain* (London and Boston, 1974).

13. Ar y ffynonellau llenyddol cynnar gw. dwy gyfrol feistraidd Paul-Marie Duval, *La Gaule jusqu'au milieu du Ve siècle* (Paris, 1971).

14. Ond fe ddadleuwyd yn ddiweddar fod Herodotus mewn gwirionedd yn ceisio nodi yn unig, ac yn gwbl briodol, gyfeiriad neu gwrs cyffredinol yr afon mewn tiriogaethau Celtaidd. Gw. R. Dion, *Revue de philologie* xlii (1968), 7-41. Gw. hefyd Franz Fischer, ' Die Kelten bei Herodot ' *Madrider Mitteilungen* xiii (1972), 109-24. Carwn ddiolch yn gynnes i'r Dr. Alan B. Lloyd, o Adran y Clasuron yn y Coleg hwn, am adael i mi gael golwg ar ei ymdriniaeth ef â'r pwnc hwn yn ei esboniad ar ail lyfr Herodotus sydd ar fin cael ei gyhoeddi.

15. Gw. J. J. Tierney, ' The Celtic Ethnography of Posidonius ' *PRIA* lx/c (1960), 139-275.

16. Gw. H. Wagner, 'The Origin of the Celts in the light of linguistic geography' *TPhS* 1969. 203-50.

17. Gw. Jan Filip, *Celtic Civilization and its Heritage* (Prague, 1962), 23 yml.

18. Gw. id., *EC* xiii/2 (1973), 583 yml., yn ogystal â'r cyfeiriad yn n. 17 uchod.

19. Gw. F. Bourriot, *Revue historique* ccxxxiv (1965), 285-310, hefyd J. V. S. Megaw, *Antiquity* xl (1966), 38 yml. a'r cyfeiriadau a nodir yno.

20. Gw. *EC* xiii/2 (1973), 607-28, hefyd *Helinium* xii/2 (1972), 105-16.

21. Gw. Byrne, *Eriu* xxii (1971), 128 yml. (yn arbennig 166).

22. Ynghylch arfer y term 'cyfraith Geltaidd' gw. sylwadau Greene yn Myles Dillon (gol.), *Early Irish Society* (Dublin, 1954), 80, yn ymyl Binchy, *Celtica* x (1973), 24.

23. Gw. *Early Irish Society* 54.

24. Gw. Jiri Neustupný, 'Essai d'explication de la fonction des stations préhistoriques fortifiées en Europe centrale', yn *Studi sulla città antica. Atti del Convegno di Studi sulla città etrusca e italica preromana* (Istituto per la Storia di Bologna, 1970), 339-43 ; Libuse Jansova, 'Lew habitates des oppida celtiques en Bohême', ibid, 329-37 ; N. K. Sandars, *Prehistoric Art in Europe* (Harmondsworth, 1968), 232 a'r cyfeiriadau yno.

25. Gw. *REA* lxviii (1966), 364, *Gallia* xxviii (1970), 256, a'r awdur, *BBCS* xxiv/4 (1972), 420.

26. Gw. y cyfeiriadau a restrir gan Charles-Edwards yn *Antiquitates Indogermanicae. Gedenkschrift für Hermann Güntert* hrsg. Manfred Mayrhofer et alii (Innsbruck, 1974), 39, n. 30. (ychwaneger M. Draak, *La Regalità Sacra : The Sacral Kingship*, Contr. to . . . the VIIIth. Internat. Congr. for the History of Religions, Rome 1955 [Leiden, 1959], 656-7).

27. Thomas M. Charles-Edwards, 'Native Political Organisation in Roman Britain and the Origin of MW *brenhin*', yn *Antiquitates Indogermanicae* 35-45.

28. Am arolwg ar waith Dumézil gw. *Nouvelle école* xxi-xxii (1972-73), 13-120. Bu tipyn o feirniadu ar ei syniadau o bryd i'w gilydd. Gw., er enghraifft, Gonda, *Mnemosyne*$^4$ xiii (1960), 1-15.

29. Gw. Guy Barruol, *Les peuples préromaines du Sud-Est de la Gaule. Étude de géographie historique* (Paris, 1969), 119 yml. Ar y term *civitas* gw. hefyd A. L. F. Rivet, *Town and Country in Roman Britain* (London, 1964), 64 yml. ; Bogaers, *JRS* lvii (1967), 231-3 ; Schleiermacher, yn *Provincialia Festschrift fur H. Laur-Belart* (Bâle/Stuttgart, 1968), 440-5.

30. Francis John Byrne, *Irish Kings and High-Kings* (London, 1973), 40.

31 Gweler, er enghraifft, Stuart Piggott, *Ancient Europe* (Edinburgh, 1965), 229.

32. *Celtic Civilization and its Heritage* 101.

33. *Pagan Celtic Britain* (London, 1967), 61 yml.



34. *Celtic Heritage* (London, 1961), 25.

35. Ar *cassi-*, *casses* gw. yr awdur *Gaulish Personal Names* (Oxford, 1967), 167-71 ; H. Birkhan, yn *Beiträge zur Indogermanistik und Keltologie, Festschrift für Julius Pokorny*, hg. W. Meid (—*IKB* Bd. xiii) (Innsbruck, 1967), 115 yml.

36. Gw. Helmut Birkhan, *Germanen und Kelten bis zum Ausgang der Römerzeit* (Wien, 1970), 518 yml.

37. Gw. Martin, *RAE* xiv (1963), 1-35 ; *Gallia* xxii (1964), 302-6 ; *Antiquity* xxxix (1965), 247-52 ; Deyts, *RAE* xvii (1966), 198-211 ; xxi (1970) 437-60 ; Vatin, *RA* 1969. 103-14 ; *Gallia* xxvii (1969), 320-35 ; *Antiquity* xlvi (1972), 39-42 ; *Gallia* xxxi (1973), 439-44. Ar aberthu pobl yn ogystal ag anifeiliaid ymhlith y Celtiaid gw. E. F. Petres, *Acta Archaeologica Academiae Scientiarum Hungaricae* xxiv/4 (1972), 364-83.

38. Gw. Poursat, *Gallia* xxxi (1973), 444 (ffig. 8) ; A. Tovar, 'Las inscripciones de Botorrita y de Peñalba de Villastar y los límites orientales de los celtíberos' *Hispania Antiqua* iii (1973), 367-405 ; Michael Lejeune, 'La Grande inscription celtibére de Botorrita (Saragosse)', *CRAI* 1973 (1974), 622-47 ; Javier de Hoz a Luis Michelena, *La Inscripción Celtíberica de Botorrita* (Universidad de Salamanca, 1974).

39. *Language* xxxiii (1957), 591.

40. Ceir y darlleniad a'r dehongliad gorau gan Vendryes yn *EC* vii (1955), 9-17.

41. Am ymdriniaeth ddiddorol ar hyn gw. Camille Jullian, *Histoire de la Gaule* (Paris, 1920), 379 yml., a'i sylwadau yn y Rhagair i G. Dottin, *La Langue gauloise* (Paris, 1920), tt. ix-x. Mae Jullian yn tueddu i fynd yn orawenus ynghylch teithi'r Celt. Gw. rhai o sylwadau C.-J. Guyonvarc'h yn ei bennod ar wlad Gâl (tt. 341 yml.) yn Myles Dillon a Nora K. Chadwick, *Les Royaumes celtiques*, tr. Christian-J. Guyonvarc'h (Paris, 1974).

42. Gw *Antiquity* xlv (1971), 103-12.

43. Gw. P.-M. Duval, *Actes du VIIIe Congrès international des sciences préhistoriques et protohistoriques, Prague* 1966 (Prague, 1971), 812-17, yn ymyl Karl Schefold, *Prähistorische Zts.* xxxv (1950 (1953)), 11-17. Gw. hefyd René Joffroy, *EC* xiii/2 (1973), 465-74.

44. Gw. Paul Jacobsthal, *Early Celtic Art* (Oxford, 1944), rhif 19 (Pl. 19, 20) ; J. V. S. Megaw, *Art of the European Iron Age* (Bath, 1970), rhif 42.

45. Gw. Nancy Sandars, *Prehistoric Art in Europe*, 275.

46. P.-M. Duval, *Art de France* iv (1964), 28.

47. Cymharer yn arbennig sylwadau Françoise Henry yn *Irish Art in the early Christian period (to 800 A.D.)* (London, 1965), 206 yml.

48. Gw. J. V. S. Megaw, op. cit., rhif 171 ; id., *PPS* xxxvi (1970), 269 yml.

49. Mae union arwyddocâd y nodwedd hon yn bur ansicr. Carwn ddiolch yn gynnes i'r Dr. Anne Ross am dynnu fy sylw at amryw ddamcaniaethau ynghylch hyn.

50. Ar y bortreadaeth gerfluniol glasurol yn Pergamum gw. Ernst Kunzl, *Die Kelten des Epigonos von Pergamon* (Würzburg, 1971).

LIBRARY
UNIVERSITY OF WALES
SWANSEA